

Mae'n anochel fod pobl yn mynd i gymharu Plaid Cymru gyda'r SNP.

Ymateb greddfodol ein gwleidyddion yw dweud nad yr Alban mo Cymru, a bod y ddwy wlad ar bwyntiau gwahanol iawn ar eu teithiau o ryddid cenedlaethol.

Mae hyn wrth gwrs yn wir, i raddau. Ond, er dweud hynny, nid yw'r 'rheswm' yma yn ei hun yn ddigon i esbonio'r gwahaniaeth rhwng ffawd y ddwy blaid. Wedi'r cyfan Plaid Cymru gafodd y canlyniadau gorau yn dilyn etholiadau cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd yr Alban.

Newidiodd ffawd yr SNP yn llwyr yn 2007, pan, trwy lwc neu gynllwyn, llwyddasant i ffurfio Llywodraeth Ieiafrifol yn Holyrood.

Yn 2006 dim ond 29% o etholwyr yr Alban oedd yn gweld eu hun yn debygol o bleidleisio dros yr SNP. Erbyn Ebrill 2007 cynyddodd hyn i 37%.

TABL 1: Bwriadau Pleidleisio yr Alban (pleidlais etholiadol) 2006-07¹

	Ceid	Llaf	Dem Rhydd	SNP
Awst/Medi 06	13	34	16	29
Hyd 06	12	33	15	32
Tach 06	13	31	16	34
Ion 07	13	30	16	34
Chwef 07	18	29	16	34
Maw 07	13	30	14	35
Ebrill 07	13	30	15	37

Gellir gweld y newid yn apel yr SNP ers i Senedd Holyrood gael ei ail-sefydlu yn y graff yma (noder: hunaniath wleidyddol a nodir yma, nid pa blaid gafodd eu pleidlais):

	Jan 1999	Jan 2000	Jan 2001	Jan 2002	Jan 2003	Jan 2004	Jan 2005	Jan 2006	Jan 2007	Jan 2009	Jan 2010	Jan 2011	Jan 2012	Jan 2013	Jan 2014
None	7%	11%	11%	13%	12%	13%	20%	14%	13%	21%	15%	14%	15%	15%	12%
Conservative	16%	16%	10%	12%	15%	14%	15%	12%	11%	12%	13%	8%	11%	11%	11%
Labour	41%	36%	46%	41%	33%	35%	35%	34%	34%	26%	34%	31%	34%	31%	32%
Liberal Democrat	12%	8%	10%	7%	10%	10%	13%	8%	7%	6%	11%	5%	5%	5%	4%
SNP	20%	20%	15%	16%	17%	13%	13%	17%	25%	21%	17%	33%	24%	22%	24%
Green Party	0%	0%	1%	1%	1%	2%	0%	2%	1%	2%	1%	0%	2%	2%	3%
Other party	0%	1%	1%	1%	3%	3%	0%	2%	1%	1%	1%	1%	1%	1%	3%
Refused	3%	8%	5%	9%	8%	10%	5%	10%	8%	11%	8%	8%	8%	13%	11%

Yn anffodus nid oes gan Gymru'r un cyfoeth o ddata ag sydd gan yr Alban. Yn ogystal â hyn nid yw'n hawdd iawn dod o hyd i hen bolau piniwn ar fformat hawdd eu deall.

Serch hynny, gallwn weld y patrwm pleidleisio dros oes datganoli a chymharu Cymru a'r Alban:

¹ <http://www.electionscentre.co.uk/wp-content/uploads/2015/10/Scottish-Council-Elections-2007.pdf>

	SNP	Plaid Cymru
1999 Etholiad Senedd ddatganoledig (etholaeth)	28.74%	28.4%
2001 Etholiad Cyffredinol y DG	20.1%	14.3%
2003 Etholiad Senedd ddatganoledig (etholaeth)	23.7%	21.2%
2005 Etholiad Cyffredinol y DG	17.7%	12.6%
2007 Etholiad Senedd ddatganoledig (etholaeth)	32.9%	22.4%
2010 Etholiad Cyffredinol y DG	19.9%	11.3%
2011 Etholiad Senedd ddatganoledig (etholaeth)	45.4%	19.3%
2015 Etholiad Cyffredinol y DG	50%	12.1%
2016 Etholiad Senedd ddatganoledig (etholaeth)	46.5%	20.5%
2017 Etholiad Cyffredinol y DG	36.9%	10.4%

Mae'r tabl yma'n dangos fod Plaid Cymru a'r SNP ar lwybr ddigon tebyg i'w gilydd yn ystod hanner cyntaf degawd cyntaf y ganrif hon. Ond, ac eithrio'r cynnydd anferthol a welodd yr SNP yn eu cefnogaeth yn dilyn y Refferendwm Annibyniaeth yn 2014 - cynnydd a ddaeth yn sgil uniongyrchol i'r refferendwm hwnnw - mae'n amlwg fod yna wahaniaeth mawr wedi datblygu rhwng llwyddiannau gwleidyddol y ddwy blaid yn 2007.

Gwelodd yr SNP 'swing' o 10% o'i phlaid bryd hynny, tra bod Plaid Cymru wedi elwa o 'swing' o 1.2% yn unig.

Y swing yma a sicrhodd fod yr SNP yn ennill grym, er gyda Llywodraeth leiafrifol. Mae'n amhosib dweud os byddai swing tebyg wedi golygu fod Plaid Cymru yn ennill grym, ond gallwn dybio y byddai wedi rhoi'r Blaid mewn safle ffafriol i arwain Llywodraeth. Ers hynny mae'r SNP wedi mwynhau dros ddegawd mewn grym yn yr Alban. Mae pethau wedi gwednewid yno, ac mae annibyniaeth yn bosibilrwydd go iawn.

A Chymru? Mae Plaid Cymru yn parhau i wrthod rhoi blaenoriaeth o fath yn y byd i Annibyniaeth fel polisi; rydym yn mynd yn gymharol dlotach gydag ein GDP a GVA yn mynd yn llai; mae ein gwasanaethau iechyd yn gwegian ac mae ein canlyniadau addysg ar waelod pob tabl rhyngwladol.

Beth ddigwyddodd yn yr Alban rhwng 2005 a 2007, felly, i achosi y fath newid yn ffawd yr SNP?

Mae'n werth nodi fod edrych yn ôl ar ddigwyddiadau hanesyddol yn golygu ein bod yn amlach na pheidio yn edrych ar y darlun ehangach o'r cyfnod, heb ganolbwyntio ar rai o'r manylion. Ond heb y cyfoeth yna o fan wybodaeth mae peryg i ni gollu gwybodaeth werthfawr. Mae hyn yn wir yn yr achos yma.

Mae hanes yn dweud wrthym fod yr SNP wedi 'ennill' etholiadau Holyrood 2007. Ond o edrych ar y manylion gwelwn eu bont wedi ennill gyda mwyafrif o un sedd yn unig (SNP 47, Llafur 46) ac roedd y canlyniadau yn affwysol o agos mewn sawl un o'r etholaethau hynny.²

- Cipiodd yr SNP Argyll a Bute gyda mwyafrif o 815 yn unig.³
- Cawsant fwyafrif o 776 yn unig yn Falkirk West.⁴

² http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/region_99999.stm

³ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/16.stm

⁴ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/247.stm

- Cipiodd Nicola Sturgeon Glasgow Govan gyda mwyafrif tila o 744.⁵
- Cafodd yr SNP fuddugoliaeth yn Livingston gyda mwyafrif o 870.⁶
- Yn Ochil, dim ond 490 oedd eu mwyafrif.⁷
- Cipiwyd Stirling gyda mwyafrif o 620⁸, a'r Western Isles gyda mwyafrif o 687.⁹
- Ac yn olaf, cipiodd yr SNP Cunninghame North oddi ar Lafur gyda mwyafrif bychan iawn o 48 yn unig.¹⁰

Roedd yna etholaethau eraill gyda mwyafrifoedd o lai na 2,000.

Ar ben hyn oll, ar ddiwedd y cyfrif cyhoeddwyd fod yr SNP wedi methu ag ennill unrhyw sedd ranbarthol yn rhanbarth Gorllewin yr Alban (rhanbarth Cunninghame North), a bod Llafur wedi ennill dwy sedd yno. Petai'r dyfarniad yma wedi sefyll, yna byddai Llafur wedi ffurfio Llywodraeth gyda mwyafrif o 1. Serch hynny, mynnodd yr SNP gael ail-gyfrifa arweiniodd at yr SNP yn ennill dwy sedd ranbarthol yno, gan roi iddynt hwy fwyafrif o un. Dyna oedd noson ddifyr!

Ai 25 pleidlais yn Cunninghame North newidiodd gwrs hanes plaid wleidyddol, cenedl, a gweddillion pwdr yr Ymerodraeth fwyaf a welodd y byd erioed? Ai'r 25 pleidlais yma arweiniodd at dwf mudiad cenedlaethol grymus a deffroad gwleidyddol yn yr Alban?

Tra gwelodd bleidlais gyntaf yr SNP gynnydd, cafodd yr SNP hyd yn oed fwy o gynnydd yn yr ail bleidlais (rhestr/rhanbarthol). Enillodd yr SNP 21 sedd etholaethol (+12 ar eu canlyniad yn 2003), gyda Llafur yn ennill 37 sedd. Ond roedd y bleidlais anferthol a dderbyniodd yr SNP yn y rhanbarthau wedi arwain atynt yn ennill 26 sedd ranbarthol. Cafodd Llafur, gyda phleidlais ranbarthol oedd dim ond fymryn yn llai nag un yr SNP, 9 sedd ranbarthol yn unig.¹¹

Felly, o edrych ar Cunninghame North, beth arweiniodd at 2,000 o bobl yno i newid eu pleidlais o Lafur yn 2003 i'r SNP yn 2007?

Dewis deuaidd

Fel yr ydym eisoes wedi gweld, roedd y polau yn dynn wrth arwain at etholiadau'r Alban yn 2007. Roedd yr SNP a Llafur yn cynnig eu hun fel pleidiau Llywodraeth.

Dengys y graff uchod (Tabl 1) fod y Ceidwadwyr yn denu cefnogaeth gyson o oddeutu 13%, a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn denu ychydig mwy o gefnogaeth, ar 15%. Tra bo Llafur yn y 30au isel, roedd yr SNP yn gweld eu cefnogaeth yn cynyddu ac yn cau'r bwlch ar Lafur, gyda ffigurau yn yr ugeiniau isel i gychwyn, ond yna yn cyrraedd uchafbwynt o 37% yn Ebrill 2007. Os oedd yr etholwyr am weld Llafur yn cael eu lluchio allan o rym, yna dim ond un blaid arall oedd gyda'r gallu i wneud hynny: yr SNP.

Ond aeth pethau o chwith i Lafur rhai blynyddoedd ynghynt, a dechreuodd yr SNP weld momentwm o fisoedd cyntaf 2006.

⁵ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/268.stm

⁶ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/380.stm

⁷ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/442.stm

⁸ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/538.stm

⁹ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/627.stm


¹⁰ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/173.stm

¹¹ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/scottish_parliament/html/scoreboard_99999.stm

Mae Graff 1 yn dangos bwriad pleidleisio ar gyfer Holyrood yn yr etholaethau, gan ddyddio o Fehfin 2005 hyd etholiad Mehefin 2007.

Yng nghanol 2005 roedd gan Lafur fwyafrif clir o 18 pwynt. Bryd hynny roedd yr SNP yn cystadlu gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ond, flwyddyn yn unig yn ddiweddarach, ac roedd yr SNP o flaen y Blaid Lafur. Tra fo polau Llafur, y Ceidwadwyr, a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dangos cwmp bach a chyson, roedd y gefnogaeth i'r SNP yn gyson gynyddu gam wrth gam.

Graff 1¹²



Mae'n werth cofio fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhannu grym mewn Llywodraeth gyda Llafur bryd hyn. Felly, os mai'r farn boblogaidd oedd bod y Llywodraeth yn gwneud yn wael, yna mae'n deg casglu y byddai'r ddwy blaid mewn Llywodraeth yn dioddef oherwydd hyn. Efallai, felly, fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gweld cwmp yn eu cefnogaeth oherwydd record wael Llafur mewn Llywodraeth.

Yr hyn sy'n glir yma yw nad oedd etholwyr yr Alban yn credu fod y ddwy brif blaid arall, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn cyflwyno cynnig credadwy fel pleidiau Llywodraeth.

Erbyn Haf 2006 roedd hi'n amlwg fod gan etholwyr yr Alban ddewis deuaidd - Llafur neu'r SNP. O hynny ymlaen roedd y ddwy blaid hynny yn ymladd i fod ar frig y polau piniwn yn yr Alban.

Erbyn mis olaf yr ymgyrch etholiadol roedd yr SNP wedi cymryd y blaen.

Llafur amhoblogaidd

Erbyn y blynyddoedd 2005-2007 roedd Llafur yn yr Alban a'r Deyrnas Gyfunol yn flinedig a diffiach. Roedd Rhyfel Iraq a'r tiriogaethau meddianedig a ddaeth yn sgil y rhyfel wedi costio'n ddud i'w poblogrwydd, ac roedd y farn gyhoeddus yn cryfhau yn erbyn y rhyfel wrth i fwy a mwy o gyrff milwyr marw gael eu hedfan yn ôl. Yn 2007 gwelwyd y nifer fwyaf o farwolaethau milwrol yn Iraq ers 2003.¹³

Roedd Llafur Prydeinig yn paffio rhyfel cartref gwaedlyd hefyd, rhwng y Blairites a'r Brownites.

¹² <http://ukpollingreport.co.uk/scottish-voting-intention>

¹³ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-10637526>

Roeddynt hefyd yng nghanol scandal am roddion.¹⁴

Disgynnodd y bleidlais Lafur yn sylweddol yn yr etholiadau lleol, gyda'r Ceidwadwyr, o dan eu harweinydd modern ac ifanc, David Cameron, yn ennill dros 900 o seddi ychwanegol.¹⁵

Roedd Llafur mewn lle gwael iawn.

Wedi dweud hynny, roedd y ffactorau yma ar waith yng Nghymru hefyd.

Un elfen wahanol oedd y ffaith fod etholiadau 2007 wedi cael eu cynnal noson cyn i'r Albanwr amhoblogaidd, Gordon Brown, gael ei benodi yn Brif Weinidog. Ond mae'n annhebyg fod hyn wedi chwarae rhan mor bwysig â hynny.

Ond roedd yna un factor cwbl unigryw i'r Alban ar waith yno hefyd. Cynhaliwyd dau etholiad ar yr un diwrnod yn yr Alban yn 2007 - Senedd yr Alban a Chynghorau Sir. Achosodd y papurau pleidleisio gwahanol gryn dipyn o drafferth, ac arweiniodd hyn at dros 100,000 o bapurau pleidleisio yn cael eu gwrthod. Cafwyd cyngor annibynnol rhag blaen yn awgrymu na ddylid cynnal y ddau etholiad yr un pryd, ond gwrthodwyd hyn gan Swyddfa'r Alban a Llywodraeth yr Alban oedd ill dau o dan reolaeth Llafur. Mae'n bosib iawn fod hyn oll wedi chwarae rhyw ran, oleuaf, yn y ffordd y bwriadodd rhai eu pleidlais yn etholiadau'r Alban yn 2007.¹⁶

"Mr Salmond promised that if he became first minister he would demand an independent judicial inquiry into how the democratic debacle had been allowed to happen, saying the events "will have offended every democrat in the country"

Efallai i'r SNP ennill o ganlyniad i ddim mwy na lwc. Ys dywedodd David Denver,

"...the confusion may have been politically important as there were 16 constituency contests in which the number of rejected ballots was greater than the winning candidate's majority. Of these, the SNP won 9, Labour 5 and the Liberal Democrats 2"¹⁷.

Ond roedd yn ffactorau eraill ar waith.

Pleidiau llai

Roedd y Llywodraeth flaenorol yn cynnwys mwyafrif Llafur a lleiafrif Rhyddfrydol. Y gred gyffredin yw bod plaid leiafrifol mewn Llywodraeth yn cael eu cosbi pan ddaw etholiad. Ond nid dyma ddigwyddodd yn yr Alban yn 2007. Collodd y Rhyddfrydwyr un sedd yn unig, ac fe gynyddodd eu pleidlais etholaethol fymryn (+0.9%) tra bod eu pleidlais ranbarthol wedi disgyn o 0.5% yn unig¹⁸.

Ni 'chwalodd' y bleidlais Lafur, chwaith. Mewn gwirionedd fe arhosodd eu pleidlais yn eithaf cyson, gan golli dim ond 2.4% o'u pleidlais yn yr etholaethau, a -0.1% yn unig yn y rhanbarthau.

Dywed Eve Hepburn,

¹⁴ <https://www.spectator.co.uk/2007/11/at-the-heart-of-the-labour-funding-scandal-is-the-moral-collapse-of-a-oncegreat-party/#>

¹⁵ http://news.bbc.co.uk/1/shared/vote2007/local_councils/html/region_99999.stm

¹⁶ <https://www.theguardian.com/uk/2007/may/04/scotland.devolution>

¹⁷

https://www.researchgate.net/profile/David_Denver/publication/242718171_'A_Historic_Moment'_The_Results_Of_The_Scottish_Parliament_Elections_2007/links/55268b260cf21e126f9e4011.pdf

¹⁸ https://en.wikipedia.org/wiki/Scottish_Parliament_election,_2007#Major_parties

“The figures ... show that the SNP's electoral success came largely at the expense of regional list support for the Greens, the Socialists and the independents. The six SSP/Solidarity MSPs all lost their seats in Parliament. The SSP's share of the regional vote fell to 0.6% and, because it did not put forward any individual candidates, like the Greens and Solidarity, it received no share of the constituency vote. Solidarity received 1.5% of the regional vote but this was insufficient to elect a list candidate. The Scottish Greens fared relatively better. Their share of the vote had dropped from 7% in 2003 to 4%—which was just under the 5–6% normally needed to elect a candidate via proportional representation.”¹⁹

Dyma un gwahaniaeth allweddol gyda Chymru. Ac eithrio'r blaidd dde eithafol, UKIP, a'r Gwyrddion ar y chwith, nid oes gan Gymru'r un trawsdoriad o bleidiau gwleidyddol y gall y pleidiau mwy dwyn eu pleidlais.

Roedd yr SNP, fel Plaid Cymru yma, yn ymladd y Blaid Lafur ar y chwith. Mae'r rhelyw o bleidiau gwleidyddol yr Alban yn gorwedd ar y chwith o'r sbectwm gwleidyddol, ac o ganlyniad mae nifer fawr o'u polisïau yn ymdebygu. Felly nid oedd yna wahaniaethau sylweddol ym maniffesto'r pleidiau yma. Roedd hyn hefyd yn wir yma yng Nghymru.

Un feirniadaeth gyson yma ydy nad yw'r etholwyr yn gweld yr angen i bleidleisio dros ddynwarediad o'r Blaid Lafur (sef Plaid Cymru) pan fod ganddynt yr opsiwn o bleidleisio dros Lafur eu hun. Mae hyn yn gor-symleiddio pethau, ond mae yna ronyn o wirionedd ynddo, yn fy marn i.

Fel yr ydwyf eisoes wedi crybwyll, roedd y Blaid Lafur yn flinedig, ac roedd hyn yn ffactor yn eu cwmp yn yr Alban. Ond nid dyma oedd y brif ffactor, fel y profodd canlyniadau Cymru.

Roedd y nifer a bleidleisiodd yn sicr yn ffactor. Roedd niferoedd pleidleisio 2007 4.1% yn uwch na 2003. Mae hyn yn gyfwerth i tua 100,000 o bleidleisiau.

Dyma ddywed David Denver,

“The increase, no doubt, was mainly due to the widespread expectation that the election would be a close-run thing with a strong possibility that the SNP could oust Labour as the largest party in the Parliament... turnout was up all across the country”²⁰

Dyma'r gwahaniaeth sylweddol cyntaf rhwng Cymru a'r Alban. Fel sydd eisoes wedi ei nodi, roedd y polau piniwn a chanlyniadau etholiadau hyd 2005/06 yn dangos fod gan Blaid Cymru a'r SNP gefnogaeth gymharol debyg (gyda'r Blaid fymryn yn is ar y cyfan).

Rŵan, mae cwmnïau Polau Piniwn yn dadlau mai adlewyrchu barn gyhoeddus ar ddiwrnod arbennig yn unig y gwnân nhw, ond y gwir ydy fod y polau yma hefyd yn 'newyddion' a gyda'r gallu o osod yr agenda newyddion o ganlyniad. Felly nid yn unig eu bod nhw'n adlewyrchu pa blaid sydd gyda'r gwynt y neu hwyliau, ond maen nhw hefyd yn chwythu'r gwynt hwnnw.

Ond fedran nhw ddim gwneud hyn heb gyfryngau i adrodd eu stori.

Mae gan yr Alban nifer eang o fforymau newyddion yn adrodd am faterion a digwyddiadau'r wlad honno. Maent yn cynnig byd olwg Albanaidd, a thra bod ein cyfeillion yn yr SNP yn cwyno fod y cyfryngau yma yn llwythol, maent oleua yn fframio'r newyddion drwy lens Albanaidd ac yn adrodd newyddion o'r Alban ac yn ymwneud a'r Alban.

¹⁹ <http://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13597560701855251?scroll=top&needAccess=true>

²⁰ <http://www.eupublishing.com/doi/pdfplus/10.3366/scot.2007.0036>

Gellir ddim dweud yr un peth am Gymru. Mae hyd yn oed ein cyfryngau ‘cenedlaethol’, y BBC ac ITV Cymru, yn darlledu gan gyflwyno gwybodaeth o bersbectif Eingl-Lundeinig.

Felly, hyd yn oed o gael senario tebyg i’r Alban yn 2006-2007 yma, byddai’r newyddion fod polau piniwn yn closio yn annhebygol o gael ei adrodd ar newyddion Cymru, ac ychydig iawn o etholwyr Cymru fydd yn clywed hyn.

Wedi dweud hynny, gyda thwf cyfryngau modern ac yn enwedig gwefannau barn llwythol, megis order-order, the Canary, Bella Caledonia, Another Angry Voice, Squawk Box, Breitbart ayb, mae yna gyfle yma i Gymru ddatblygu platform newyddion gyda ffocws Cymreig, fel y mae Nation.Cymru a Bella Gwalia wedi dechrau gwneud.

Noda Eve Hepburn,

There was popular disenchantment with Scottish Labour and its perceived inability to represent the interests of the Scottish people on key reserved matters, such as the treatment of asylum seekers on Scottish soil, and plans to extend nuclear facilities in Scotland²¹

Fel sydd eisoes wedi ei nodi, fe welodd yr SNP gynnydd anferthol yn y bleidlais ranbarthol (+10.1%), oed dyn fwy na’r cynnydd a welwyd y neu bleidlais etholaethol (+9%). Arweiniodd hyn at yr SNP yn ennill 8 sedd yn fwy ar y rhestrau na’r nifer a gawsant yn yr etholiad blaenorol.

Noda David Denver fod y gefnogaeth i bob un o’r prif bleidiau Albanaidd yn perthyn i nodweddion cymdeithasol ei hetholaethau,

The Conservatives do better where there are more people with professional and managerial jobs, more owner occupiers, more older people, more people employed in agriculture and more people who claim an affiliation to the Church of Scotland. They do worse where there are more people who rent their homes from the council or a housing association and more young people, in more urban areas (persons per hectare), where there are more households without a car and more Roman Catholics. In general, the pattern of Labour support is a mirror image of that for the Conservatives²²

Ond, nid yw hyn yn wir pan fo’n dod at yr SNP. Noda David Denver nad oedd yna gydberthynas rhwng y gefnogaeth i’r SNP ag unrhyw nodweddion cymdeithasol neu economaidd arbennig. “(The party) attracts a similar level of support in all types of constituencies”, meddai.

Dywed fod yr SNP yn enghraifft dda o blaid ‘catch all’ - yr Eglwys Eang yr ydym yn aml yn clywed son amdan. Mae hyn, meddai, yn wendid wrth ymladd etholaethau FPTP (First Past The Post), ac mae’r canlyniadau yn awgrymu fod hyn yn wir, gan fod yr SNP wedi ennill canran uwch o’r bleidlais ar draws yr Alban, ond enillodd y Blaid Lafur fwy o seddi. Serch hynny,

"In a proportional system ... the geographical dispersion of votes does not have a significant impact on the distribution of seats."²³

Nid oes Gwaith dadansoddi cyffelyb wedi cael ei wneud yma yng Nghymru, I weld os oes yna gydberthynas rhwng pleidiau ac etholaethau. Byddai’n ddifyr gweld canlyniadau Gwaith ymchwil o’r fath.

²¹ <http://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13597560701855251?scroll=top&needAccess=true&>

²² P.73 <http://www.eupublishing.com/doi/pdfplus/10.3366/scot.2007.0036>

²³ Ibid.

Annibyniaeth

Mae Plaid Cymru, yn hanesyddol, wedi cadw'n gymharol ddistaw ar eu huchelgais i weld Cymru'n ennill statws gwladwriaeth annibynol. Yn wir, nid oedd Annibyniaeth yn bolisi i'r Blaid tan 2006.

Ond nid oedd gan yr SNP unrhyw amheuaeth mai dyma oedd ei nod cyfansoddiadol hwy ar gyfer yr Alban.

Mae nifer oddi fewn a'r tu allan i'r Blaid wedi mynegi pryder fod hyrwyddo annibyniaeth am golli cefnogaeth i'r Blaid, ac y byddai'n arwain at y Blaid yn cymryd cam yn ol ar ol brwydro mor galed i gymryd ychydig gamau ymlaen.

Ond unwaith eto, anwybyddodd yr SNP y pryderon yma yn llwyr, gan roi annibyniaeth yn ganolog i'w bodolaeth fel plaid.

Dyma felly dwy agwedd wahanol at sut dylid trin a thrafod y cwestiwn o annibyniaeth - gydag un yn credu ei fod yn cael effaith negyddol ac yn arwain at golli pleidleisiau, ac un arall yn credu nad oedd yn beth negyddol ac nad oedd yn golygu eu bont yn colli pleidleisiau.

Amlygwyd y gwahaniaeth sylfaenol yma rhwng y ddwy blaid yn ystod etholiadau 2007.

Rhoddodd yr SNP annibyniaeth wrth galon eu hymgyrch etholiadol, tray ma yng Nghymru brwydrodd y Blaid yr etholiad ar gefn 7 polisi allweddol, a'r mwyaf cofiadwy oedd 'gliniadur am ddim i bob disgybl' a'r slogan 'Gwneud gwahaniaeth'.

Nid fy mwriad yma yw bychanu tîm ymgyrch y Blaid yn 2007. Roedd manifesto'r ddwy blaid yn debyg iawn mewn sawl ffordd. Ond, tra mai'r hyn oedd yn cael ei ddefnyddio i gydio yn nychymygyd pobl yma oedd 'gliniadur am ddim i ddisgyblion', roedd yr SNP yn dweud hyn:

We are working hard to earn the trust and support of the people of Scotland and we will trust Scots to take the decision on Scotland's future in an independence referendum.²⁴

Dyma oedd y naratif a ddiffiniodd etholiadau 2007, ac nid dim ond yn yr Alban.

Roedd Lloegr yn dangos diddordeb.

Roedd yr SNP yn arwain yn y polau piniwn; roedd Llafur yn amhoblogaidd; ac roedd yr SNP yn dweud yn blwmp ac yn blaen y byddai eu Llywodraeth hwy am gynnal refferendwm ar annibyniaeth.

Os oedd yna gwestiwn ynghylch a oedd polisi annibyniaeth yn ennill neu golli cefnogaeth i blaid wleidyddol, yna byddai etholiadau 2007 yn cynnig ateb terfynol.

Gosododd yr addewid am refferendwm ar annibyniaeth y naratif ar gyfer yr etholiad cyfan. Yn gynnar yn Ebrill 2007, fe ysgrifennodd David Cameron am y posibilrwydd o annibyniaeth i'r Alban mewn colofn yn y Daily Telegraph.²⁵ Cyhoeddwyd llythyrau yn y papurau Llundeinig ynghylch y pwnc²⁶.

²⁴ <http://www.politicsresources.net/area/uk/ass07/man/scot/snp.pdf>

²⁵ <http://www.telegraph.co.uk/comment/personal-view/3639114/Scots-and-English-flourish-in-the-Union.html>

²⁶ Daily Mail - AS A Scot born and bred, with a Scottish family history as far back as I can trace, I am proud to call myself British as well as Scottish.

Yn wir, roedd yn naratif mor bwerus fel ei fod yn hawdd iawn i ni anghofio fod yna etholiadau pwysig eraill yn cael eu cynnal ar hyd y Deyrnas Gyfunol yr un pryd. Dyma ddywedodd y Plymouth Herald

Indeed much of the coverage, nationally at least, of this election campaign has focused on Scotland and the possibility of nationalist success opening the door to Scottish independence or else highlighting the potential embarrassment for Tony Blair of a Labour rout as he prepares to leave office.²⁷

Ar ddiwrnod yr etholiad ei hun, ysgrifennodd Angus Macleod yn y Times:

*Scottish voters, who go to the polls today, could take a historic and decisive step away from the Union which has linked the nation with England for the past 300 years. The result will be critical for the country's future because, if they emerge as the largest party at Holyrood, as opinion polls have long predicted, the SNP has pledged to hold a referendum on separation.*²⁸

Roedd Llafur o'r farn fod annibyniaeth yn rhoi pobl i ffwrdd rhag pleidleisio dros yr SNP. O ganlyniad fe wnaethon nhw gyfeirio at y peth bob cyfle oedd ar gael iddynt. Yn wir, fe wnaethon nhw chwarae ei rhan yn hyrwyddo'r polisi oherwydd hyn. Ys dywedodd Macleod yn ei erthygl yn y Times:

(Labour) Party strategists believe that it has helped convince those undecided voters that the risks of independence are a more important factor on which to base their vote than punishing Labour and Mr Blair.²⁹

Roedd refferendwm annibyniaeth yr SNP mor rymus fel i'r Sun hyd yn oed wneud apêl i'w darllenwyr i bleidleisio dros Lafur a gwrthwynebu'r SNP:

Today Scotland is standing at a crossroads.

Not since the 1940s has there been a day like this, when millions of ordinary people have had such power over their own futures - a day when the very existence of Britain is at stake.

For centuries, the different cultures in the UK have celebrated their differences, but also co-operated in the greater united entity. Until recently, the banter between the separate parts of the country were generally good humoured, but within the past ten to 15 years a nasty tone of vitriol has crept into the atmosphere.

I cannot understand how anyone can believe that Scotland could be a totally independent entity; there are just too many ties at all levels with the other parts of the Union.

To think that Scotland could be better governed is to ignore the self-serving, money-grabbing, politically correct insanity that is the Scottish Parliament.

At least it is limited in the damage it can do.

DAVID PATERSON, Glasgow.

²⁷ Make sure you cast your vote
The Western Morning News; Plymouth (UK) [Plymouth (UK)]03 May 2007: 10.

²⁸ Future of Scotland is hanging in the balance: [Final 1 Edition]
Macleod, Angus. **The Times; London (UK)** [London (UK)]03 May 2007: 1.

²⁹ Ibid

This is the day to go and vote. Vote for Britain with Scotland at the heart of it.

*Vote Labour.*³⁰

Ac yna aethant ymlaen i ymosod ar addewid refferendwm yr SNP mewn golygyddol 1,000 o eiriau, gan honni y byddai'r sector ariannol, diwydiant adeiladu cychod y Clyde a Forth, addysg ayb yn dioddef o ganlyniad. Roedd yn golofn a oedd yn canolbwyntio yn llwyr ar addewid annibyniaeth yr SNP, nid eu polisïau iechyd, addysg, isadeiledd, economi ayb.

Daeth yr ymosodiad yma gan y Sun yn dilyn ple olaf Llafur i'r etholwyr, gyda'u '10 reasons to fear an SNP victory', gyda'r Prif Weinidog, Jack McConnell a Changhellor y Trysorlys ar y pryd, Gordon Brown, yn arwain yr ymosodiad.

Crisialodd y Scotsman y cyfan ar ddiwrnod olaf yr ymgyrchu:

The focus of this election has been on independence. Labour has tried its best to make this a virtual referendum on independence while the SNP has done the opposite, insisting that this is anything but a referendum on independence - that will only come later if the SNP wins the election.³¹

Ond roedd annibyniaeth wedi bod yn ganolog i ymgyrchoedd etholiadol yr SNP ers degawdau:



SNP Manifesto 1992

Roeddynt wedi bod yn gyson yn eu haddewidion eu bont am gynnal refferendwm ar annibyniaeth pe byddent mewn Llywodraeth:

THIS is a historic opportunity for every Scot as we vote for our first Parliament in 300 years.

I have campaigned on my principles but I have not been alone.

³⁰ Only Labour can save us from a living nightmare: The Sun; 03 May 2007

³¹ Election 2007: Election Agenda: All you need to know to make your final decision The Scotsman, 03 May 2007

All over the country, people who share the vision of a Scotland with meaningful jobs, good health, high education and strong services have been working hard.

We want to prove that Scots can govern themselves well and, from good government, move on to self-government.

That's why we promise a referendum on independence - so that we can aspire to be a nation like any other.³²

Ond newidiodd pethau yn 2007.

Roedd Llafur yn amhoblogaidd; roedd yr SNP yn cau'r bwlch yn y polau piniwn, gan basio Llafur yn y pendraw; dechreuwyd y posibilrwydd o gael refferendwm ar annibyniaeth yn beth go iawn, ac, o ganlyniad, fe wnaeth y wasg ymateb.

Ni wnaethant droi i ffwrdd o'i hymrwymiad i annibyniaeth,



SNP Central Campaign Literature, 2007

A gwnaed yr addewid ar bob lefel - yn ganolog ac yn lleol,

³² Alex Salmond, Sunday Mail, 02 May 1999

Keith Brown SNP, Campaign Literature, 2007

Yn hytrach na'i roi fel ymrwymiad bach yng nghanol brawddeg ar dudalen di-nod nad oes neb yn ei ddarllen yn y manifesto yn unig, rhoddodd yr SNP eu hymrwymiad tuag at annibyniaeth yn gwbl ganolog i bob dim yr oeddent yn ei wneud. Ond yn bwysicach na hynny yn unig, roedd annibyniaeth yn un hanner yn unig o'r addewid, gyda'r ail hanner yn cynnwys ymrwymiad i gynnal refferendwm. Mae hyn yn allweddol. Roedd yr etholwyr yn medru pleidleisio dros yr SNP yn gwbl hyderus fod y penderfyniad terfynol yn eu dwylo hwy. Efallai eu bont yn amheus o annibyniaeth ond eu bont yn hoff o gynnig polisiau'r SNP. Roeddynt yn gallu pleidleisio dros yr SNP yn gwybod na fyddai rhywbeth yn cael ei orfodi arnynt yn erbyn eu hewyllys a chael plaid effeithiol a da mewn grym yr un pryd.

Arweinyddiaeth a hunaniaeth genedlaethol

Roedd nifer o'r ffactorau oedd yn golygu fod y Blaid Lafur yn amhoblogaidd yn yr Alban hefyd ar waith yma yng Nghymru. Roedd yr etholwyr yn y ddwy wlad yn chwilio am ddewis arall oedd yn gymwys i weinyddu.

Roedd gan Albanwyr yr SNP oedd yn cael ei arwain gan arweinydd adnabyddus a charismataidd.

Yn ei lyfr Leadership and Uncertainty Management in Politics dywed Francois Vergnolle De Chantal,

“Before becoming First Minister Alex Salmond had managed to build up a strong leadership within his own party as well as a high profile in London where he relentlessly promoted the nationalist case at Westminster and in numerous broadcast political programmes (Lynch, 2002). By the time of the 2007 Holyrood elections he had clearly become a major electoral asset for the SNP, with the polls showing him to be far more popular than the incumbent First Minister, Jack McConnell. This prompted the SNP to emphasize the contrast between the party leaders, a strategy that culminated in the party using ‘Alex Salmond for First Minister’ instead of ‘SNP’ as the main party identifier on the regional ballot paper (Murray and Crawford, 2010).³³

³³ Leadership and Uncertainty Management in Politics: Leaders, Followers and Constraints in Western Democracies, Francois Vergnolle De Chantal, Chapter 5

Mae'r pwynt olaf yn un pwysig.

Cymharwch arweinydd Llafur yn yr Alban, Jack McConnel gydag arweinydd Llafur Cymru ar y pryd, Rhodri Morgan. Roedd Rhodri Morgan yn adnabyddus ac yn cael ei barchu a hoffi gan bawb. Roedd ganddo feddwl chwim, ac roedd yn cyfleu'r argraff ei fod yn un o'r werin.

Llwyddodd i ail-frandio'r Blaid Lafur yng Nghymru fel Llafur Cymru (Welsh Labour), gyda 'dwr claeare coch' rhwng ei Lafur o yma a Llafur Newydd amhoblogaidd Tony Blair.

Roedd prosiect Rhodri Morgan i Gymreigio'r Blaid Lafur yma yn un o'r ffactorau pwysicaf paham na welwyd yr un llwyddiant yma i Blaid Cymru ag y cafodd yr SNP yn yr Alban.

Traddododd Rhodri Morgan, pan yn Brif Weinidog, araith yn Abertawe yn Rhagfyr 2002 fydd yn cael ei weld o bwys hanesyddol mawr nid yn unig i'r Blaid Lafur ond hefyd i Blaid Cymru.

Yn yr araith hon, cyflwynodd Rhodri Morgan ei weledigaeth o Gymru o dan y Blaid Lafur Cymreig, gan ddisgrifio sut oedd y weledigaeth honno yn gwahaniaethu o'r syniadau a pholisïau oedd yn cael eu gwthio a gweithredu gan Lafur Newydd yn Llundain.

Dyma'r araith a ddaeth a'r term 'dwr claeare coch' i sylw cyhoeddus (er i Rhodri Morgan anghofio defnyddio'r term wrth draddodi ei araith - mae'r diolch fod y term wedi dod i'r golwg yn perthyn i'r Guardian a argraffodd stori yn seiliedig ar y datganiad i'r wasg!).

Pan draddodwyd yr araith yn 2002, y gred oedd mai ei phwrpas oedd ei ddangos y gwahaniaeth clir oedd yn bodoli rhwng Llafur Cymru a Llafur Llundain.

Ond cafodd effaith llawer iawn mwy ar Blaid Cymru. Yn wir, rydym yn parhau i deimlo'r effaith heddiw. Methiant mawr y Blaid oedd methu ag adnabod ac ymateb i hyn yn ddigon sydyn.

Cymreigio'r Blaid Lafur

Cafodd Plaid Cymru ganlyniad anhygoel yn etholiadau cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Roedd yr etholwyr yn edrych ar y Cynulliad Cenedlaethol Newydd fel sefydliad Cymreig, a Phalid Cymru oedd y Blaid Gymreig.

Traddodwyd araith Abertawe Rhodri Morgan 4 mis cyn ail etholiadau'r Cynulliad. Er mai bwriad arwynebol yr araith oedd trafod polisi cymdeithasol yng Nghymru, y gwir oedd bod Rhodri Morgan wedi defnyddio'r cyfle fel rhan o'r ymgyrch etholiadol gyda'r bwriad o roi pellter rhwng ei Blaid Lafur ef yng Nghymru a Phalid Lafur Newydd Blair yn Llundain. Roedd Llafur 'Newydd' yng nghanol paratodau ar gyfer Rhyfel Ira car y pryd, gyda Phenderfyniad 1441 y Cenedloedd Unedig yn cael ei basio fis ynghynt. Ei fwriad hefyd oedd dwyn tir Plaid Cymru o dan ein traed a chyflwyno Llafur fel gwir blaid Cymru.

O ddarllen yr araith heddiw byddai rhywun yn meddwl mai aelod o Blaid Cymru a'i traddododd. Ni ddylai fod yn sioc fod Prif Weinidog Cymru yn son am Gymru, ond roedd i'r araith draw Genedlaetholgar:

"As a socialist of the Welsh stripe..."

"It means doing things the Welsh way."

"In so many ways the relationship between economic and social policy was one forged in the industrial revolution which took place in Wales two hundred years ago and which set the tone for industrialisation across Europe. It was in Wales that we saw unprecedented change

during the 19th century where the impact of massive industrialisation in mining, quarrying, steel making created a new kind of society based on mass production.”

“This is the fabric of Welsh life with which we are all very familiar. This is the sometimes proud, sometimes agonising history of a nation built very largely on the efforts of working people in hard surroundings. This is the raw material, the social heritage out of which Welsh devolution has been created - and in which we can now make our own social policy in Wales, for Wales.”

“It is a Welsh version of the so-called post-war consensus in the British body politic on the welfare state...”

“The small scale of the Assembly, and of Wales itself, is surely a major advantage to us in this regard. Wales is of a size where we are well placed to work together to make things work better. We know where the problems lie, and we know each other pretty well - both institutionally and - very often - individually. We should therefore be able to take advantage of small scale to make big decisions more easily.”³⁴

Pwy yw'r cenedlaetholwyr?

Roedd troad y mileniwm hefyd yn nodi troad gwleidyddol mewn sawl ffordd. Tua'r adeg yma gwelwom ddirywiad yng ngwleidyddiaeth dosbarth a thwf gwleidyddiaeth hunaniaeth. Wedi'r cyfan roedd dyfodiad New Labour wedi cael gwared ar y syniad o'r gwleidyddiaeth dde-chwith traddodiadol:

“In Scotland, ‘New’ Labour’s shift to the centre is important partly because it reduces the gap between the party and the Conservatives, but mainly because it has virtually eliminated any left-right ideological difference with the party’s main rival, the SNP... The parties are left clearly distinct only in terms of nationalist ideology and constitutional preferences. Hence in 1999, left-right position was a significant predictor neither of Labour versus SNP voting nor of defection from Labour vote in 1997”.³⁵

Mae'r ychydig o dystiolaeth sydd ar gael yma yn awgrymu nad oedd y sefyllfa yn wahanol iawn yma yng Nghymru o'i gymharu â'r Alban. Cynhaliodd Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru Prifysgol Aberystwyth arolwg o 1,500 o bobl yn dilyn etholiad cyntaf y Cynulliad ym 1999, a chanfod fod 83% o bobl yn meddwl mai Plaid Cymru oedd yn cynrychioli'r dosbarth gweithiol yng Nghymru orau.

Dyma oedd y farn am Lafur Newydd: “(New Labour) was seen in Wales as a party which primarily looked after the interests of the middle class and English people.”³⁶

Byddai hyn wedi brifo Llafur, ac yn ddi-os wedi cyfrannu at brosiect Rhodri Morgan o Gymreigio'r Blaid Lafur yma. Cafodd y blaid ei hail frandio fel Llafur Cymru yn 2000.

³⁴ <https://www.sochealth.co.uk/the-socialist-health-association/sha-country-and-branch-organisation/sha-wales/clear-red-water/>

³⁵ Valence Politics in Scotland: Towards an Explanation of the 2007 Election, Robert Johns and James Mitchell, & David Denver (Political Studies: 2009 Vol 57, p209)

³⁶ <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/698688.stm>

Esblygodd hyn i'r graddau fel y medrau 'Llafur Cymru' ddweud a hygydedd eu bod nhw'n 'sefyll cornel Cymru' yn ystod etholiadau 2011.

Cofleidiodd Llafur genedlaetholdeb Cymreig, neu oleuaf fe wnaethant hynny ar yr wyneb.

Roedd Llafur yn datblygu i fod yn blaid Cymru. Yn absenoldeb unrhyw wahaniaethau amlwg, roedd y gap ideolegol rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn brysur gau.

Nid dyma oedd yr achos yn yr Alban. Nid oedd yna unrhyw drafferth i wahaniaethu rhwng yr SNP a Llafur yno. Roedd polisi annibyniaeth yr SNP yn gwneud y gwahaniaeth yn glir. Roedd y polisi yma yn gorfodi'r pleidiau eraill i ddod oddi ar y ffens Albanaidd - a oedden nhw o blaid Yr Alban yntau'r Undeb. Dewisodd y Blaid Lafur yno'r Undeb gydag argyhoeddiad. Doedd yna ddim cwestiwn felly ynghylch pwy oedd yn amddiffyn buddiannau'r Alban. Roedd hi'n berffaith glir mai'r SNP oedd y blaid honno.

Wrth i ni weld gwleidyddiaeth yn seiliedig ar ddsbarth cymdeithasol yn gwanhau, rydym yn gweld cynnydd ym mhwsigrwydd pleidleisio 'valence', a hynny'n dod yn bwysicach wrth i'r etholwyr benderfynu dros bwy i bleidleisio.

Dyma ddiffiniad Wikipedia o 'valence voting':

"Valence politics, also known as competence voting, is a model of voting behaviour that emphasises that individuals vote based upon "people's judgements of the overall competence of the rival political parties".

Mae'r etholwyr yn penderfynu ar ba blaid neu wleidydd i'w gefnogi yn seiliedig ar faterion sydd y tu hwnt i hunaniaeth dosbarth traddodiadol.

Mae John, Mitchell a Denver yn cyflwyno esboniad rhagorol ar sut y bu i bleidleisio 'valence' ddylanwadu ar wleidyddiaeth yr Alban yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon. Dylai Plaid Cymru gymryd sylw o'u casgliadau.

Mae eu papur, Valence Politics in Scotland: Towards an Explanation of the 2007 Election, yn dweud er nad yw barn gyfansoddiadol etholwyr o reidrwydd yn ffactor sydd yn selio penderfyniad yr etholwyr ar sut mae pleidleisio (h.y. os ydynt o blaid neu yn erbyn annibyniaeth), maent yn nodi fod yna dystiolaeth y byddai: "voters endorse the constitutional option deemed most likely to deliver desired public policy outcomes; that is, their constitutional preferences are driven at least in part by valence concerns"³⁷.

Maent yn manylu ar sut mae 'valence' yn greiddiol i farn etholwyr ar ffactorau cyfansoddiadol, a bod hyn felly, yn ei dro, yn arwain pobl i gefnogi un opsiwn cyfansoddiadol yn arbennig sydd yn ei dro yn eu harwain i gefnogi un blaid wleidyddol arbennig. Felly, er enghraifft, os ydy etholwr yn credu mai iechyd oedd y mater pwysicaf, yna byddant yn gweld mai Senedd yr Alban oedd yn rheoli ar y mater. Y cwestiwn i'r etholwr wedyn ydy pa blaid wleidyddol sydd yn cynnig eu hun fel y mwyaf abl yn y cyd-destun hwnnw.

"Nonetheless, many studies emphasise the importance of parties being seen to support Scotland's interests.

Two points should be made about this. First, with the over-whelming majority of voters identifying as Scottish to at least some extent, support for Scottish interests is in effect a

³⁷ Valence Politics in Scotland: Towards an Explanation of the 2007 Election, Robert Johns and James Mitchell, & David Denver (Political Studies: 2009 Vol 57, p211)

valence issue. While there may be disagreement about how Scottish interests are best served, there is no important section of the electorate that does not want them served. Second, 'support for Scotland's interests' is a rather abstract and general notion, and so voters may need more concrete and specific cues in order to estimate whether parties are willing and able to stand up for Scotland. The parties' constitutional preferences can give such a cue. Hence, for example, the Conservatives' unpopularity since the 1980s, and especially in the 1997 and 1999 contests, owed much to their opposition to devolution, not just because the majority of voters dis-agreed, but because it made them appear anti-Scottish. In contrast, 'standing up for Scotland's interests' is part of the SNP's raison d'être, and so even those opposed to independence may be inclined to believe that the party could deliver benefits to Scottish voters. Thus the SNP's stance on independence might win it valence support from voters, regardless of their own personal constitutional preferences. Given the acknowledged importance of standing up for Scotland's interests for a party's image, the potential gains from this valence-based support are considerable.

The second condition relates to a different aspect of party image: perceived moderateness. A strong commitment to independence may win the SNP credit for its commitment to Scottish interests even from opponents of independence, but is likely to cost it support if the party appears determined to secure that outcome as soon as possible and against the wishes of the electorate. It would thus risk being seen as a single-issue and perhaps also as rather an extreme party. Leaving aside voters' own constitutional preferences, they seem more likely to be impressed by a party with independence as a clear medium-term to long-term goal but conditional on public support, and with plenty else to say and do in the meantime.

That appears to be the image that the SNP sought to project in its campaigning, and - according to Philip Gould (2007) - it was largely successful. If anything, it was Labour that seemed more obsessed with independence during the campaign, their aim being to play on 'doubts about the SNP and the financial risk of independence' (Gould, 2007). The downside of this was that the campaign appeared predominantly negative - 'relentlessly' so, according to an adviser to Jack McConnell (Gray, 2007) - and that may have tarnished Labour's image."³⁸

Mae'r rhain oll yn bwyntiau mor bwysig, roeddwn i'n meddwl eu bont yn haeddu eu cynnwys yn llawn.

Felly os ydy hyn yn wir am yr Alban, ydy o hefyd yn wir am Gymru?

Mae'r mwyafrif o etholwyr yng Nghymru yn adnabod eu hun fel Cymry, ond i raddau dipyn yn llai nag etholwyr yr Alban. Mae'r ffin yng Nghymru yn fandylllog iawn. Ond, er hynny, dengys cyfrifiad 2011 fod 58% o bobl Cymru yn ystyried eu hun yn Gymry yn unig. Felly mae'n sefyll i reswm fod yna ganran mawr o etholwyr Cymru yn rhoi pwys sylweddol ar faterion Cymreig.

³⁸ Ibid. 211-2

https://www.researchgate.net/publication/23968226_Valence_Politics_in_Scotland_Towards_an_Explanation_of_the_2007_Election

Fel yn yr Alban, mae dweud 'Supporting Wales' interests' yn gysyniad eithaf haniaethol. Felly beth yw'r ciwiau y mae etholwyr yn eu gweld er mwyn iddyn nhw fedru dod i benderfyniad os yw plaid wleidyddol mewn gwirionedd yn 'sefyll i fyny dros Gymru'

Mae'r papur a ddyfynnir uchod yn awgrymu fod safbwynt plaid wleidyddol ar y cwestiwn cyfansoddiadol yn giw amlwg. Ond yn wahanol i'r SNP yn yr Alban, nid yw Plaid Cymru yn hanesyddol wedi rhoi unrhyw fath o bwyslais ar annibyniaeth, gan honni mai uchelgais hirdymor ydyw cyn mynd ymlaen yn sydyn iawn a son am faterion eraill. Yr unig giw arall ydy enw'r plaid, ond o ystyried natur ieithyddol Cymru, ai'r ciw y mai'r rhelyw yn ei weld yma yw mai plaid ar gyfer Cymru Cymraeg yn unig ydy Plaid Cymru, ac nid plaid ar gyfer Cymru gyfan?

Yn yr Alban, gwelsom fod gwrthwynebiad Llafur yno i unrhyw ddatganoli pellach wedi chwarae yn wael iawn gydag etholwyr oedd yn rhoi pwys ar faterion Albanaid. Roedd hyn hefyd yn wir yng Nghymru yn ystod y flwyddyn gyntaf o dan Alun Michael. Ond, fel yr ydym eisoes wedi gweld, newidiwyd hyn yn syth gyda Rhodri Morgan yn cipio'r arweinyddiaeth.

Mae'r gwahaniaeth yn glir. Mae'r ffaith fod yr SNP wedi bod yn gwbl eofn wrth hyrwyddo annibyniaeth, ynghyd a'r ffaith eu bont wedi ymrwymo i rymuso'r etholwyr trwy gynnal refferendwm, wedi creu gwahaniaeth clir gyda'r Blaid Lafur. Rhoddodd hyn y cyfle i'r SNP redeg ymgyrchoedd cadarnhaol, gyda gweledigaeth glir a chadarnhaol am ddyfodol yr Alban. Ar y llaw arall, roedd yn rhaid i'r Blaid Lafur benderfynu a oedden nhw o blaid yr Alban neu'r Undeb, a cawsant eu gorfodi i redeg ymgyrchoedd negyddol yn erbyn yr SNP. O ganlyniad, yr SNP oedd yn gosod y naratif gwleidyddol, ac roedd yn rhaid i Lafur eu dilyn.

Ond, yma yng Nghymru, mae Llafur wedi cael rhydd hynt i wisgo eu hun i fyny fel 'amddiffynwyr Cymru', a thra eu bont wedi rhedeg ymgyrchoedd negyddol yn gyson yn erbyn y Ceidwadwyr, unig gyfraniad y Blaid oedd rhedeg ymgyrchoedd hyd yn oed yn fwy negyddol, gan feio Llafur a'r Ceidwadwyr, a chael ein gweld yn cwyno ein bod yn dlawd ac yn cael ein cam-drin.

Mae datganoli yma i aros. Mae pob pol piniwn yn dangos cynnydd cyson yn y gefnogaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae o felly yn sefydliad unigryw Gymreig, ac yn rhoi cyfle i ni gael atebion Cymreig i gwestiynau Cymreig.

Mae'r etholwyr felly yn chwilio am Lywodraeth all gynnig atebion Cymreig i'r cwestiynau Cymreig hynny.

Yr eironi ydy, ar adeg pan mai bod yn Gymreig, a chynnig atebion Cymreig, a bod o blaid Cymru yw'r ieithwedd gwleidyddol cyffredin, fod yr unig blaid go iawn sydd yn bodoli er lles Cymru yn drydydd yn y polau piniwn cenedlaethol, y tu ol i Lafur a'r Ceidwadwyr sydd yn gwbl Unoliaethol.

Mae hyn oherwydd fod y ddwy blaid honno (i raddau mwy neu lai) wedi gwisgo eu hun i fyny i fod yn 'Gymreig' a, gan fod ganddom Senedd yng Nghymru, fod yn rhaid iddyn nhw bellach lunio polisiau Cymreig. Rydym oll yn genedlaetholwyr nawr.

Felly beth sydd yn gosod Plaid Cymru arwahan i'r pleidiau yma?

Hyd at Haf 2015 roedd daliadau sosialaidd Plaid Cymru yn eu gosod arwahan i'r pleidiau eraill. Unwaith eto, mae'n eironig ar adeg pan fo gwleidyddiaeth ddosbarth wedi colli tir i wleidyddiaeth hunaniaeth, fod Plaid Genedlaethol Cymru yn cael ei hadnabod yn well oherwydd ei gwleidyddiaeth dosbarth nag oherwydd y ffaith ei bod yn amddiffyn Cymru.

Nid beirniadu'r Blaid ydwyf yma, nac ychwaith beirniadu ymgyrchoedd y Blaid yn erbyn y cynnydd yng ngwleidyddiaeth y Dde. Ond nid oes rhaid iddo fod yn un neu'r llall. Does dim rhaid i'r ffaith ein

bod ni am weld Cymru'n wladwriaeth annibynnol yn eistedd y drws nesaf i Gyprus yn y Cenhedloedd Unedig yn rhywbeth arwahan i'r wleidyddiaeth flaengar a radical sydd wedi bod yn ganolog i dwf y Blaid dros y genhedlaeth ddiwethaf. Gall y ddeubeth, ac yn wir dylai'r ddeubeth, gydblethu. Nid yw un yn tansilio nad yn niweidio'r llall.

Yr hyn sydd yn berffaith amlwg yw nad ydy hyrwyddo annibyniaeth, neu yn hytrach refferendwm ar annibyniaeth, gyda phobl Cymru wrth yr awenau, yn niweidio cyfleoedd etholiadol plaid wleidyddol. Yn hytrach, mae'n debyg y byddai'n apelio at etholwyr Cymru.

Byddai hyn yn ei dro yn gosod Plaid Cymru arwahan i bob plaid wleidyddol arall yng Nghymru. Byddai hefyd yn amlygu deuoliaeth a chelwyddau Llafur, sydd, fel mae pethau'n sefyll, yn gallu cael eu haelodau Cynulliad yn dweud pethau tra gwahanol i'r hyn y mae eu haelodau Seneddol yn ei ddweud.

Mae bod o blaid Cymru yn ennill pleidleisiau. Mae'n beth cadarnhaol.

Er gwaethaf eu sloganau a 'soundbites' yn son am 'amddiffyn Cymru', bydd y cwestiwn yn cael ei ofyn - ar ba ochr i'r ffens y byddwch chi pan ddaw at Gymru mewn gwirionedd: o blaid Cymru neu o blaid yr Undeb? Byddai hyn, ynnddi ei hun, yn creu trafodaeth genedlaethol ynghylch budd ein parhad fel aelod o'r Deyrnas Gyfunol.

Mae refferendwm yr Alban a Brexit yn dangos i ni fod y rhai hynny sydd heb ddim byd i'w golli yn barod i bleidleisio am newid gan nad oes ganddynt ddim i'w golli, ac mae'r rhai hynny sydd gyda rhywbeth i'w golli yn cefnogi'r statws cwo. Wrth ystyried tloedi cymharol Cymru, mae'n deg dod i'r casgliad nad oes gan y rhelyw o bobl yma ddim byd i'w golli. Ond nid ydym wedi cael y drafodaeth genedlaethol honno eto.

Rydym wedi caniatáu i'r drafodaeth am annibyniaeth gael ei arwain gan Brydeinwyr.

Byddai hyrwyddo annibyniaeth yn caniatáu i Blaid Cymru redeg ymgyrch gadarnhaol, yn seiliedig ar weledigaeth o Gymru well a dyfodol gwell i bawb. Byddai'n gorfodi gwrthwynebwyr annibyniaeth i redeg ymgyrch negyddol. Yn hytrach na diffinio ein hun fel 'nid y Ceidwadwyr ac nid Llafur', gallwn ail greu ein hun i fod yn blaid o adeiladwyr, yn adeiladu gwladwriaeth newydd.

Os wnaethom fel plaid ddysgu unrhyw beth o gyfraniadau'r seicolegydd Claire Howell, y wers bwysicaf un ddylai fod bod yn gadarnhaol yn curo bod yn negyddol. Mae llwyddiant yr SNP yn 2007 yn dyst i hyn. Gadewch i'r gweddill ddweud wrth bobl Cymru pam ddylai Cymru aros yn dlawd; pam na ddylai Cymru gael uchelgais i wella bywyd ein pobl; pam na all Cymru fod fel Denmarc, Ffindir, Gwlad yr Ia neu Aotearoa (Seland Newydd). Ein swyddogaeth ni yw rhoi gobaith i bobl, a dweud y gall pethau wella.

Rydym wedi trio popeth arall, felly nid oes ganom unrhyw beth i'w golli!

Annibyniaeth yw'r un peth clir sy'n ein gwahaniaethu ni oddi wrth y gweddill. Dyma'r un peth sy'n dweud y bydd Plaid Cymru, yn fwy nag unrhyw blaid wleidyddol arall, yn amddiffyn buddiannau Cymru bob tro.

Yn ogystal â hyn y wers arall a gawn trwy edrych ar Alex Salmond a Rhodri Morgan yw'r angen am arweinydd sy'n cael ei hoffi gan draws doriad eang o bobl.

Gyda Carwyn Jones yn cyrraedd diwedd ei gyfnod fel Prif Weinidog, bydd yna nifer o Lafurwyr yn ystyried rhoi eu henwau ymlaen.

Yn seiliedig ar y syniad o 'valence voting', petawn i yn Llafur ni fyddwn yn dewis Prif Weinidog digymraeg. Mae cael arweinydd Llafur sy'n siarad Cymraeg yn atgyfnerthu ei neges mai nhw yw plaid Cymru, go iawn.